GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION CHWECHED CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 7FED CHWEFROR 2007

LLEOLIAD: GWESTY'R MARRIOTT, ABERTAWE

Yn Bresennol:

Mal Davies (Cadeirydd)	Goronwy Jones
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Nichola Jones
Frank Bonello	Valerie Merriman
Tim Cox	Suzanne Nantcurvis
Elwyn Davies	Rosemond Nelson
Michael Edwards	Richard Parry Jones.
Ian Guy	Gareth Roberts
Anthony Hughes	Jane Setchfield
Angela Jardine	Jacky Tonge
Sue Jenkins	Gwen Williams
Gareth Jones	Peter Williams

Ymddiheuriadau:
Ron Carrotte, Sheila Drayton a Matt MacIver (Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban)

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Harris	Swyddog Cymorth Corfforaethol

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i chweched cyfarfod ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Estynnwyd croeso i'r arsylwyr Paul Brazeau (aelod Etholedig Gogledd Ddwyrain Ontario ar Gyngor Llywodraethu Coleg Athrawon Ontario), Lisa Dobie (Gweinyddydd y Cyngor, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a Janet Richard (Pennaeth Cyllid, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr) . Estynnwyd croeso pellach hefyd i'r sawl a arsylwai o'r oriel gyhoeddus.

1.2 Aeth y Cadeirydd ymlaen i nodi'n ffurfiol farwolaeth Jean Campion, aelod o'r Cyngor, ac aeth ymlaen i gynghori'r aelodau bod rhodd wedi'i chyflwyno ar ran aelodau'r Cyngor a'r staff i Hosbis y St David's Foundation. Yna cafwyd munud o ddistawrwydd er cof am Jean.

1.3 Yna tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y pecynnau *Dod yn Athro Cymwys* a ddarparwyd er gwybodaeth ac at gyhoeddiadau eraill a oedd ar gael yn dilyn y cyfarfod. Roedd y rhain yn cynnwys *Gweithdrefnau a Rheolau'r Cyngor; Gweithdrefnau a Rheolau Addasrwydd* ac *Addysgu Cymru – rhifyn y gaeaf.*

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Bu i Richard Parry Jones ddatgan diddordeb yn eitem 12 ar yr agenda: *Fframwaith Datblygiad Proffesiynol* mewn perthynas â darpar ddarparwyr peilot yr Athro Siartredig. Cytunwyd y byddai'n ymadael â'r ystafell ar yr adeg briodol yn y drafodaeth.

2.2 Yn ddiweddarach yn y cyfarfod, bu i Gareth Jones ddatgan diddordeb yn eitem 15 ar yr agenda: *Materion Safonau Proffesiynol* a chytunodd i ymadael â'r ystafell ar yr adeg briodol.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd i'r aelodau y byddai'r ddau lythyr gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cael eu trafod o dan eitemau 11 a 12 ar yr agenda.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 17eg Hydref 2006

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 6.8: Calendr dyddiadau: Adroddodd y Cadeirydd fod calendr estynedig o ddyddiadau cyfarfodydd, a oedd yn cael ei newid i ffurf blwyddyn academaidd, wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol a'i ddosbarthu i aelodau.

4.3 Cofnod 9.5: Addasrwydd i Gofrestru: Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) ddiweddariad i'r aelodau, gan adrodd bod cyngor cyfreithiol wedi'i gael mewn perthynas â geiriad mater ar dudalen 6 o ddogfen *Gweithrediadau a Rheolau Addasrwydd* y Cyngor. Roedd diwygiad priodol wedi'i wneud i sicrhau eglurder yn unol â dymuniad yr aelodau.

4.4 Cofnod 9.6: Addasrwydd i Gofrestru: Cynghorwyd yr aelodau gan Hayden Llewellyn fod cyngor cyfreithiol i'r Cyngor wedi rhoi sicrwydd na fyddai canlyniadau gweithrediadau'r llysoedd milwrol yn effeithio ar y meysydd a gwmpesir gan gylch gorchwyl y Cyngor.

4.5 Cofnod 14.3: Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu: Holodd un aelod a ofynnwyd am arweiniad mewn perthynas ag anomaledd posibl fel y nodwyd yn y cofnodion. Ymatebodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) drwy ddweud y byddid yn ymdrin â'r mater yn fuan ac y byddai'r Cyngor hyn yn cael ei hysbysu maes o law.

4.6 Cofnod 15.5: Safbwyntiau Ewropeaidd ar gymwysterau addysgu: Hysbyswyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr fod CyngAC yr Alban wedi diwygio gweithdrefn graidd yn dilyn cyhoeddi dogfen ymchwil ar draws gwledydd a gomisiynwyd gan Gynghorau Addysgu'r DU ac Iwerddon. Câi athrawon a oedd wedi cymhwyso drwy lwybrau traddodiadol yn y DU y tu allan i'r Alban gofrestru gyda ChyngAC yr Alban heb unrhyw ofynion gweinyddol pellach.

4.7 Cofnod 10.4: Cyllido Sefydlu a DPC: Gofynnodd aelod am ddiweddariad ar yr ymateb gan swyddogion y Cynulliad i'r mater o gael cyllid ôl-weithredol. Dywedodd Gary Brace fod swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol wedi nodi na fyddai cyllid ar gael i ysgolion cyn i hyfforddiant athrawon gael ei gynnal.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas ag Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (21 i 26)

5.1 Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau.

6. Cofnodion drafft y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 4ydd Rhagfyr 2006

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr, gan dynnu sylw'r aelodau at 2 brif bwynt nad oeddent wedi eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod.

6.2 Cofnod 7.5: Darlith Flynyddol 2007: Cynghorwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr fod gwahoddiad wedi'i gyhoeddi a bod swyddogion yn disgwyl ymateb.

6.3 Cofnod 7.6: Digwyddiad Gogledd Cymru: Adroddodd y Prif Weithredwr fod trefniadau ar droed hefyd i gynnal trafodaethau gyda Chyfarwyddwyr AALlau yng Ngogledd Cymru.

6.4 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

6.5 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7. Cofnodion drafft y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 4ydd Rhagfyr 2006.

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Frank Bonello, gan esbonio y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod ar yr agenda. Fodd bynnag, tynnodd sylw'r aelodau at gofnod 4.4: *Llwyth gwaith Safonau Proffesiynol a Rhyddid Gwybodaeth.* Nid oedd y cofnodion yn nodi'r dewis opsiwn. Roedd aelodau'r Pwyllgor Cofrestru o'r farn mai opsiwn C oedd y dewis pennaf fel y ffordd ymlaen, er mwyn cydymffurfio ag ysbryd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth drwy gyhoeddi gwybodaeth fanylach.

7.2 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

8. Cofnodion drafft y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 8fed Rhagfyr 2006

8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn yn fras, gan hysbysu'r aelodau y câi'r holl faterion eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

8.2 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

9. Cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 13eg Rhagfyr 2006

9.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Jacky Tonge yn absenoldeb Ron Carrotte a gadeiriodd y cyfarfod diwethaf. Cynghorwyd yr aelodau y câi'r holl faterion eu trafod ar yr agenda.

9.2 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

10. Cynllun Corfforaethol, 2007-10 a'r Cynllun Gweithredol, 2007-08 (CYNGACC 01/07)

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a oedd yn cynnwys y Cynllun Corfforaethol a amlinellodd amcanion lefel uchel y Cyngor am gyfnod o 3 blynedd a'r Cynllun Gweithredol a roddodd fanylion gweithgareddau'r Cyngor am gyfnod o 12 mis gyda thargedau i'w cyflawni. Roedd yr elfen ariannol ar gyfer pob cynllun wedi'i nodi ar nodyn a ddosbarthwyd. Gwahoddwyd yr aelodau i drafod materion ariannol mewn perthynas â ffi gofrestru'r Cyngor yn benodol yn rhan o eitem 11 ar yr agenda.

10.2 Roedd y ddwy ddogfen wedi'u trafod yn flaenorol gan y Cyngor a'r Pwyllgor Gweithredol fel ei gilydd, ac, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau, gwahoddwyd yr aelodau i gynnig sylwadau ar y cynlluniau.

10.3 Holodd un aelod pam y cynhwyswyd *Addasrwydd i Gofrestru* yng nghynnwys y Cynllun Corfforaethol. Eglurodd y Prif Weithredwr fod y rhan hon o gylch gorchwyl y Cyngor wedi'i chynnwys yn Amcan 1.2 a amlinellai'r gweithgareddau cofrestru.

10.4 Aeth y Cadeirydd ymlaen i wahodd yr aelodau i gynnig sylwadau ar y Cynllun Gweithredol. Ni chodwyd unrhyw faterion ac roedd yr aelodau yn fodlon ar y drafft yn ei ffurf derfynol.

10.5 Cyflwynwyd y tudalennau cyllid gan Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)*, gan atgoffa'r aelodau bod set amlinellol o ffigurau mewn perthynas â gweithgarwch y Cyngor wedi'i darparu ddiwethaf i'r Cyngor ar 13eg Gorffennaf 2006 gan gynnwys costau peilot yr Athro Siartredig. Yn wreiddiol, rhagamcanwyd diffyg wedi'i ddilyn gan elw am y ddwy flynedd, sef 2007-08 a 2008-09 ond ers hynny, roedd cynnydd mewn costau staff a chostau nad oeddent yn gysylltiedig â staff wedi'u rhagamcanu ac erbyn hyn disgwyliwyd diffyg ar gyfer y blynyddoedd hynny. Yn ogystal, byddai gorwariant ar gostau disgyblu'r Cyngor yn ystod 2006-07 yn arwain at ddefnyddio'r Gronfa Ddisgyblu Wrth Gefn. Aeth y Dirprwy Brif Weithredwr ymlaen i esbonio bod y ffigurau a gyflwynwyd i'r aelodau yn bwriadu i'r Gronfa Ddisgyblu Wrth Gefn gael ei hailgyflenwi dros gyfnod o dair blynedd i gynnwys y blynyddoedd ariannol 2008-09 i 2010-11. Hysbyswyd yr aelodau fod costau ar gyfer peilot yr Athro Siartredig, gyda chyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi'u cynnwys ar gyfer 2007-08 a 2008-09 ond nid ar gyfer 2009-10 hyd nes y deuai penderfyniad i'r peilot gael ei gynnig i'r brif ffrwd. Mewn gwirionedd, byddai rhai costau'n dod i ran y Cyngor mewn perthynas â'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol, gan gynnwys peilot yr Athro Siartredig, yn dod i gyfanswm o

ryw £25,000 yn 2007-08 a 2008-09. Petai peilot yr Athro Siartredig wedyn yn dod yn rhaglen brif ffrwd, gallai gwariant blynyddol amcangyfrifedig o ryw £150,000 ddod i ran y Cyngor – nid oedd y ffigwr hwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

10.6 Yna gwahoddodd y Prif Weithredwr yr aelodau i drosglwyddo'r datganiadau ariannol yn y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol i'r Pwyllgor Gweithredol i'w cytuno ym mis Mawrth 2007 yn barod i'w gweithredu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Cyn hynny, byddai swyddogion yn ymgymryd â gwaith i gynnwys sylwadau'r aelodau.

10.7 Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i gynnig sylwadau fel oedd yn briodol.

10.8 Ymysg y materion a godwyd roedd y canlynol: dylid holi CyngACau eraill i ganfod a oeddent wedi gweld cynnydd yn eu costau disgyblu; ystyried gostwng costau gwrandawiadau Safonau Proffesiynol drwy fewnoli'r 'digwyddiad'; nodi bod y dymuniad i gynnal gwrandawiadau yn y Gogledd a'r De yn golygu talu costau ychwanegol ac y gallai fod achos i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ystyried y costau uwch i'r Cyngor mewn perthynas â'i ddymuniad i fod yn hyblyg ac yn sensitif wrth hwyluso'r broses ddisgyblu.

10.9 Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr o'r ôl-groniad yn DfES yn dilyn digwyddiadau Ionawr 2006 a arweiniodd yn uniongyrchol at gynnydd yn nifer y gwrandawiadau. Darparodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) gymhariaeth â'r trefniadau newydd sydd yn eu lle yng NghyngAC Lloegr sydd, wrth fynd i adeiladau newydd, wedi achub y cyfle i sicrhau 2 ystafell fewnol i gynnal gwrandawiadau ac sydd hefyd wedi penodi nifer o swyddogion cyflwyno mewnol. Roedd y rhain yn opsiynau y gellid eu hystyried yn y dyfodol.

10.10 Cododd aelod arall gwestiwn ynghylch a oedd y cyfrifiadau ariannol wedi ystyried nifer y llefydd gwag ym maes addysg a nododd fod nifer yr athrawon yng Nghymru, at ei gilydd, yn parhau i ddisgyn. Adroddodd Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* fod nifer bresennol yr athrawon a oedd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor yn 38,400, a bod y gyllideb flynyddol wedi'i seilio o hyd ar amcangyfrif gofalus o 36,500 o athrawon cofrestredig.

10.11 Codwyd mater mewn perthynas â ffioedd cofrestru yn erbyn gweithgareddau craidd y Cyngor, a allai greu sefyllfa lle gallai ymddangos bod cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei ddefnyddio fel cymhorthdal i waith y Cyngor. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i aelodau mai canran yn unig o gostau'r gorbenion, fel trydan a rhent, oedd yn cael ei chodi ar y Cynulliad mewn perthynas â gwaith cymorth grant a wnaed gan y Cyngor. Mewn perthynas benodol ag unrhyw gynllun yn y dyfodol i brif-ffrydio'r rhaglen Athro Siartredig, roedd y Cyngor wastad wedi rhagdybio y byddai'n cyllido gweinyddu'r cynllun.

11. Ffi gofrestru, 2007-08 (CYNGACC 02/07)

11.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, cyfeiriodd y Prif Weithredwr yr aelodau at y llythyr dyddiedig 12fed Ionawr 2007 gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Byddai'r materion a oedd yn deillio o lythyr y Gweinidog yn cael eu hystyried ynghyd â diwedd trefniant dwy ffordd gyda ChyngAC Lloegr a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer athrawon a oedd yn addysgu yng Nghymru a Lloegr.

11.2 Mewn perthynas â'r mater cyntaf, atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi cytuno ym mis Gorffennaf 2006 ar ffi gofrestru amlinellol o £36 ar gyfer 2008-09 a bod hyn

wedi'i gadarnhau gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Rhagfyr. Nid oedd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi cymeradwyo cais y Cyngor i osod y ffi ar £36 ond nododd y byddai'n cymeradwyo £33, er yr ychwanegodd y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio trefnu cyllid ychwanegol i gefnogi rhaglen beilot yr Athro Siartredig.

11.3 Nododd y Prif Weithredwr fod llythyr y Gweinidog yn codi cwestiynau sylfaenol am annibyniaeth ariannol y Cyngor ac felly'r potensial i'r Cynulliad gael dylanwad. Roedd cais i gynyddu lefel ad-daliad y ffi gan yr STRB wedi'i godi gan Gadeiryddion presennol a blaenorol y Cyngor, ond roedd yn parhau ar lefel a oedd, yn ymarferol, yn ymddangos i glymu ffi CyngACC i'r hyn a osodwyd gan GyngAC Lloegr. Ymateb y Gweinidog oedd y tro cyntaf i gais y Cyngor i osod ffi gael ei wrthod.

11.4 Ychwanegodd y Cadeirydd fod y Gweinidog wedi cefnogi bwriad y Cyngor i gynnal trafodaethau gyda'r STRB mewn perthynas â'r gwahanol alwadau ar gyllidebau CyngACC a ChyngACLl. Yn arbennig, roedd CyngAC Lloegr wedi gallu cadw'r costau i lawr oherwydd eu harbedion maint. Roedd galwadau arbennig yng Nghymru – sef polisïau addysg a dwyieithrwydd, er enghraifft, a oedd yn golygu nad oedd o gymorth tynnu cymariaethau.

11.5 Ymhlith y materion a godwyd gan aelodau roedd y canlynol: y ffaith nad oedd y Gweinidog wedi ystyried ei bod yn rhyfedd i'r Cyngor osod ei ffi am nifer o flynyddoedd islaw lefel ad-daliad ffi'r STRB; y ffaith nad oedd yn ymddangos ar y pryd bod unrhyw gysylltiad rhwng ffi'r Cyngor a'r hyn a osodwyd yn Lloegr ond bod hynny yn amlwg wedi newid; y dylai'r Cyngor ofyn am adroddiad cynnydd ar drafodaethau'r Gweinidog gyda'r STRB fel yr amlinellodd yn ei llythyr ac y dylid llunio rhestr o weithgareddau na fyddai'r Cyngor yn gallu ymgymryd â nhw heb gynnydd yn y ffi.

11.6 Roedd un aelod o'r farn y dylai'r Cyngor fod yn fwy darbodus yn ei wariant lle byddai angen, fel y gallai ymgymryd â'r gwaith ychwanegol roedd am ei wneud dros y proffesiwn, tra'n sicrhau nad oedd athrawon yn talu mwy. Nododd y dylid gofyn i'r Gweinidog symud trafodaethau ei swyddogion â'r STRB yn eu blaen. Soniodd aelod arall y dylai peilot yr Athro Siartredig gael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am mai arbrawf ydoedd. Yn ychwanegol, codwyd rhai pryderon ynghylch gosod gwahanol ffioedd yng Nghymru a Lloegr, a'r posibilrwydd na fyddai'r proffesiwn yn croesawu hyn.

11.7 Eglurodd y cadeirydd fod ef a'r Prif Weithredwr, mewn trafodaethau anffurfiol gyda'r STRB, wedi ceisio sicrhau ad-daliad uwch i bawb yn hytrach nag ad-daliad ffi gwahanol i Gymru a Lloegr.

11.8 Yna cafwyd trafodaeth ar gyfrifoldebau'r Cyngor o ran gosod cynllun o'i weithgareddau arfaethedig a'u costio'n briodol. Mater i'r cyflogwr, h.y. y Llywodraeth, wedyn oedd penderfynu sut i gyllido'r gwaith. Nodwyd bod trefniant arbennig eisoes yn ei le i gydnabod costau uwch cyflogi athrawon yn Llundain.

11.9 I gloi, cytunodd yr aelodau y dylid anfon ymateb cadarn i'r Gweinidog er mwyn amddiffyn annibyniaeth ariannol a hygrededd y Cyngor.

11.10 Mewn perthynas â'r ail fater i'w drafod, esboniodd y Prif Weithredwr fod trefniant dwy ffordd wedi bodoli rhwng CyngAC Lloegr a'r Cyngor a oedd yn cynnwys yr athrawon hynny a oedd yn byw ar y ffin ac a allai weithio yng Nghymru neu Loegr yn ystod y flwyddyn. Ar sail eu lleoliad preswyl, talwyd un ffi unigol naill ai i GyngAC Lloegr neu GyngAC Cymru. Roedd y trefniant hwn wedi cynorthwyo rhyw 150-200 o athrawon ond roedd angen trafod y sefyllfa parthed penderfyniad Lloegr i dynnu allan o'r trefniant.

11.11 Yna cafwyd trafodaeth o amgylch y prif bwyntiau canlynol: roedd y Cyngor yn dymuno annog CyngAC Lloegr yn gryf y dylai ailystyried ei sefyllfa yng ngoleuni'r gost ychwanegol y byddai'n ei chreu i athrawon; y posibilrwydd o ad-dalu'r ddwy ffi gan yr STRB; a'r terfyn amser a osodwyd er mwyn dod i benderfyniad. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) y byddai'r trefniant dwy ffordd yn bodoli tan 2007-08 ac y byddai'n ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau ad-daliad dwbl.

11.12 Caeodd y Cadeirydd y mater drwy ddweud y dylid drafftio llythyr a darparu adroddiad i'r Cyngor ar 3ydd Mai 2007. Roedd yr aelodau'n gytûn.

12. Adroddiad y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol (CYNGACC 03/07)

12.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr ac esboniodd ei fod wedi'i osod mewn 4 rhan: yn gyntaf, ymateb y Gweinidog i gyngor Haen 2 a ddarparwyd gan y Cyngor; yn ail, diweddariad ar yr Ymgynghoriad ar Athro Siartredig; yn drydydd, y sefyllfa bresennol gyda rhaglen beilot yr Athro Siartredig ac yn olaf, y cynigion ymgynghori drafft ar gyfer Haenau 3 a 4 y fframwaith.

12.2 Darparodd yr wybodaeth ddiweddariad i'r aelodau ar nifer o ddatblygiadau allweddol yng ngwaith y Cyngor o ran sefydlu fframwaith cydlynus ar gyfer cydnabyddiaeth ac achrediad proffesiynol athrawon yng Nghymru. Mae hyn yn unol â swyddogaethau'r Cyngor, fel y nodir yn Neddf 1998; sef cynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol athrawon ar wahoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â'r Gweinidog ar 24ain Hydref 2006 i drafod y Cyngor ac roeddent wedi rhoi cyflwyniad i Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9fed Tachwedd 2006 mewn perthynas â haen 2 y fframwaith.

12.3 Adroddodd y Prif Weithredwr i gychwyn ar lythyr ymateb y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau dyddiedig 10fed Ionawr 2007. Roedd yr ymateb a'r atodiad atodedig yn peri rhywfaint o bryder ac roeddent yn ymddangos yn groes i'r ymagwedd bartneriaeth newydd a hyrwyddwyd yn ddiweddar gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

12.4 Mynegodd yr aelodau bryder am ymyrraeth bosibl y Cynulliad yn y cynllun.

12.5 I'r gwrthwyneb, roedd aelod arall o'r farn bod y Gweinidog wedi gofyn am eglurhad pellach mewn perthynas â chysylltiad y rhaglen Athro Siartredig â thâl. Roedd yn ofni y gallai athrawon fod yn aflwyddiannus o ran cael dyrchafiad yn y dyfodol heb fod ganddynt achrediad yr Athro Siartredig.

12.6 Yn ystod trafodaeth hir gwnaed y sylwadau canlynol: byddai'n berthnasol egluro ystyr paragraff 6 yn yr atodiad i lythyr ymateb y Gweinidog mewn perthynas â'r pwynt "*Bydd angen i'r Cyngor gysylltu â'r rheiny sy'n datblygu darpariaeth ar gyfer y sector ehangach a nodi meysydd lle byddai'n fuddiol creu cysylltiadau er mwyn osgoi dyblygu*" am y gallai hyn fod yn waith na fyddai'r Cyngor yn dymuno ymgymryd ag ef; gallai swyddogion ystyried bod y rhaglen Athro Siartredig yn gyfrwng defnyddiol i fentrau'r Cynulliad; roedd aelodau o'r farn y dylai'r Fframwaith fodoli ar wahân i safonau tâl a chael ei seilio ar egwyddorion datblygiad proffesiynol, tra'n peidio â bod yn anghyson â systemau cyflogau athrawon.

12.7 Symudodd y drafodaeth yn ei blaen i ail ran yr adroddiad, sef diweddariad ar yr ymgynghoriad ar safonau Athro Siartredig. Cynghorwyd yr aelodau gan Karen Evans (Rheolwr Polisi a Chynllunio) bod dros 600 o ymatebion wedi'u derbyn yn cynnig cefnogaeth gref i'r rhaglen.

12.8 Ymadawodd Richard Parry Jones â'r cyfarfod ar y pwynt hwn ac ailymunodd â'r cyfarfod unwaith i'r drafodaeth ar y tendr ar gyfer rhaglen beilot yr Athro Siartredig ddod i ben.

12.9 Aeth Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) ymlaen i adrodd ar yr ymarfer tendr i gaffael darparwyr, ymgynghorwyr ac aseswyr ar gyfer peilot yr Athro Siartredig. Cynghorwyd yr aelodau bod dros 300 o athrawon wedi mynegi diddordeb gyda nifer fawr o ysgolion hefyd yn awyddus i gymryd rhan yn y peilot. Y dyddiad cau ar gyfer tendro fyddai 23ain Chwefror 2007.

12.10 Yn olaf, tynnodd Gary Brace sylw'r aelodau at haenau 3 a 4 drafft y cynigion ymgynghori a oedd yn ymwneud ag agweddau cofnodi/hunanadfyfyrio a sicrhau ansawdd y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol. Roedd y drafft wedi'i drafod yng nghyfarfod y Tasglu ar 18fed Ionawr 2007, ond dyma'r tro cyntaf i'r aelodau weld y drafft. Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau a syniadau ar y ddogfen fesul pennod.

12.11 Gofynnwyd am ddiwygiad ar dudalen 16, paragraff 34 mewn perthynas â'r swyddi a oedd yn eu lle erbyn hyn gyda'r Cynllun Athro Rhagorol. Cyfeiriwyd at y ddogfen *Tâl ac Amodau* a fyddai'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol o bosibl i swyddogion y Cyngor.

12.12 Tynnodd aelod sylw hefyd at y derminoleg a ddefnyddiwyd yn y ddogfen. Gallai'r term 'Sicrhau Ansawdd' gyfeirio at blismona'r rhaglen ond gellid defnyddio term arall, sef 'Gwella Ansawdd i gymhwyso prosesau i wella ansawdd y cynllun dros gyfnod o amser. Cyfeiriwyd at fodel Athro Siartredig yr Alban a oedd yn defnyddio gweithgareddau gwella ansawdd a oedd yn addo esblygu dros amser. Tybiwyd y gallai'r Cyngor ddefnyddio'r model hwn.

12.13 Roedd yr aelodau'n fodlon ar y drafft a chytunwyd y byddai unrhyw sylwadau eraill yn cael eu cyflwyno i Hayden Llewellyn erbyn 16eg Chwefror 2007. Gofynnodd y Cadeirydd am gytundeb i'r ddogfen gael ei throsglwyddo i'r Pwyllgor Polisi i'w datblygu ymhellach.

12.14 Mynegodd yr aelodau eu bodlonrwydd cyffredinol ar y gwaith a wnaed gan swyddogion ym mhob un o 4 maes y fframwaith.

13. Cyllido Sefydlu a DPC – adroddiad cynnydd (CYNGACC 04/07)

13.1 Cyflwynwyd y papur hwn yn fras gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*), gan atgoffa'r aelodau bod y Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb am weinyddu Cyllido Sefydlu a DPC, yn dilyn gwahoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o 1af Medi 2006.

Cyllido Sefydlu:

13.2 Darparodd yr adroddiad y canlyniadau gweinyddu i'r aelodau hyd at ddiwedd tymor y Nadolig. Hyd yma, roedd £900,000 wedi'i ddyrannu. Roedd cytundeb lefel gwasanaeth 20 diwrnod gwaith y Cyngor wedi'i gynnal, gan sicrhau bod cyllid y Cynulliad yn cael ei weinyddu'n effeithlon.

13.3 Hysbyswyd yr aelodau gan Hayden Llewellyn fod nifer fach o athrawon a oedd wedi gwneud cais am gyllid Sefydlu wedi'u nodi fel rhai nad oeddent wedi cofrestru gyda'r Cyngor. Yn yr achosion hyn, darparwyd y gwaith papur priodol i'r ysgol a byddai'r cyllid yn cael ei ryddhau unwaith i'r athrawon gofrestru.

Cyllido DPC:

13.4 Atgoffwyd yr aelodau bod cyllid Datblygiad Proffesiynol Cynnar yn cael ei dalu i ysgolion yn flynyddol. Ar ddiwedd tymor yr Hydref, roedd £9000 wedi'i dalu.

13.5 Amlygwyd rhai mân faterion ynghylch gweinyddu cyllid y Cynulliad yn y maes hwn ac adroddwyd arnynt ym mharagraffau 18 i 22 o'r papur esboniadol. Yn gyntaf, roedd nifer o geisiadau wedi methu â chyrraedd y dyraniad £1000 gyda rhai ysgolion yn dal ceisiadau yn eu hôl am gyfleoedd datblygu eraill a allai godi yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol. Yn yr achosion hyn, roedd swyddogion y Cyngor yn ceisio cymeradwyo'r ceisiadau cyhyd â bod y meini prawf cymhwysedd yn cael eu bodloni ac ail-nodwyd y ffaith bod angen costio'r gweithgareddau cyn i'r Cyngor dalu unrhyw hawliadau ariannol ac na ddylent fod dros £1000. Yn ogystal, roedd nifer sylweddol o geisiadau wedi'u derbyn lle bwriadwyd defnyddio'r cyllid ar gyfer gweithgareddau llawer ehangach na'r gwreiddiol. Rhoddodd Hayden Llewellyn sicrwydd i'r aelodau bod hyn wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Rhagfyr a bod cais am arweiniad wedi mynd yn syth i swyddogion y Cynulliad ac AALlau mewn perthynas ag ansawdd ceisiadau.

13.6 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau. Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

14. Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol - adroddiad cynnydd (CYNGACC 05/07)

14.1 Darparwyd adroddiad i'r aelodau ar y rhaglen gyllido Datblygiad Proffesiynol Parhaus a oedd yn dangos bod swyddogion wedi dyrannu'r cyllid a drosglwyddwyd yn wreiddiol i'r Cyngor gan y Cynulliad at y diben hwn erbyn canol Tachwedd 2006. Yna dyrannwyd £200,000 yn ychwanegol a dderbyniwyd gan y Cynulliad erbyn canol Ionawr 2007. Roedd cais pellach am gyllid wedi arwain at ryddhau £160,000 a darparodd tanwariant o £40,000 ar y gyllideb SAC y £200,000 sy'n cael ei ddyrannu ar hyn o bryd. Er bod y dyraniad yn symud yn gyflym, dylai'r bloc cyllid olaf hwn fod yn ddigonol.

14.2 Adroddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) y newyddion cadarnhaol hyn, gan esbonio bod y £400,000 ychwanegol o gyllid wedi galluogi 700-1000 o athrawon pellach i gael datblygiad proffesiynol pellach.

14.3 Holodd un aelod a ellid cadw unrhyw gyllid dros ben ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Cynghorodd Hayden Llewellyn na ddisgwyliwyd unrhyw warged ac er y caniatawyd cario cyllid drosodd mewn blynyddoedd blaenorol, ni fyddai modd gwneud hyn yn y dyfodol yn dilyn Cyfarwyddyd Cyfrifyddu newydd.

14.4 Holodd aelod arall a fyddai adroddiad gwerthuso'n cael ei ddarparu ar ddiwedd peilot y Bwrsari Grŵp. Rhoddodd Hayden Llewellyn sicrwydd i'r aelodau y byddai hyn ar gael ar ddiwedd y peilot 2 flynedd.

14.5 Nododd yr aelodau'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â gweinyddu'r rhaglen gyllido ac roeddent yn fodlon ar yr adroddiad.

15. Materion Safonau Proffesiynol (CYNGACC 06/07)

15.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr d y papur hwn, gan gynghori'r aelodau bod 3 maes i'w trafod a'u cytuno. Yn gyntaf, mater cynhyrchu crynodeb gwaith achosion a gâi ei gyhoeddi'n agored; yn ail, y cynnig i ddefnyddio aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol ac yn olaf, yr angen i drafod mater yr anghysondeb ymagedd tuag at gyhoeddi gwrandawiadau a chanlyniadau.

15.2 Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i dynnu sylw'r aelodau at argymhelliad y Pwyllgorau Gweithredol a Chofrestru i fwrw ymlaen ag opsiwn sef cynnig datblygu adroddiad crynodebol o waith achosion a gâi ei gyhoeddi yn ysbryd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gallai hyn cael ei gyflwyno i'r proffesiwn a'i gyhoeddi mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy ddefnyddio gwefan y Cyngor a'r cyfnodolion *Addysgu Cymru.* Roedd yr aelodau'n fodlon i swyddogion weithio ar ymagweddau drafft.

15.3 Ymadawodd Gareth Jones â'r cyfarfod ar y pwynt hwn tra y cynhaliwyd trafodaethau mewn perthynas â defnyddio aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol. Dychwelodd unwaith i'r drafodaeth ddod i ben.

15.4 Tra'n atgoffa'r aelodau o'r rheoliadau sydd yn eu lle mewn perthynas â chyfansoddiad Pwyllgorau Safonau Proffesiynol, rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r aelodau na fyddai angen unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth i alluogi'r Cyngor i gyflawni'r newid arfaethedig. Yng nghyd-destun y cynnydd diweddar mewn achosion, nododd nad oedd unrhyw opsiwn heblaw chwilio y tu allan i'r Cyngor i greu paneli o'r fath. Nifer y bobl leyg ar y Cyngor berodd y rhwystr mwyaf wrth lunio paneli. Amlygwyd penderfyniad diweddar gan GyngAC Lloegr i benodi 15 athro a 10 aelod lleyg i ategu cronfa'r Pwyllgorau.

15.5 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan yr aelodau. Codwyd y materion ynghylch sut i nodi personau a pha feini prawf a gâi eu cymhwyso. Nododd aelod arall, er yn cefnogi'r symudiad, na ddylai'r Cyngor golli golwg ar y ffaith ei fod yn gorff ifanc o hyd, na'r ffaith bod aelodau'n agos iawn i'r gweithdrefnau a'r rheolau a'u bod wedi bod yn gysylltiedig â'u datblygu ac yn gorfod eu cymhwyso mewn Pwyllgorau Ymchwilio/gwrandawiadau o'r fath. Aeth ymlaen i ategu bod angen creu hanes achosion digonol yn gyntaf y gellid ei ddefnyddio fel teclyn hyfforddi ar gyfer personau newydd o'r fath.

15.6 Roedd y pwyntiau a'r cwestiynau ychwanegol yn cynnwys y canlynol: y posibilrwydd o ofyn i staff y Cyngor ymdrin â rhagor o achosion; siom nad oedd yr holl aelodau wedi cynnig eu hunain i Bwyllgorau Safonau Proffesiynol; a mater y taliadau ariannol i aelodau paneli.

15.7 Daeth y rhan hon o'r drafodaeth i ben pan ddaeth cynnig i dderbyn cyfarwyddyd y swyddogion a gwahodd gwaith er mwyn cyflwyno argymhellion penodol pellach i gyfarfod nesaf y Cyngor. Cafodd y cynnig hwn ei eilio a'i gytuno.

15.8 Aeth yr aelodau ymlaen i drafod ffyrdd o gyhoeddi hysbysiadau ar gyfer gwrandawiadau sydd ar fin cael eu cynnal a chanlyniadau gwaith achosion Safonau Proffesiynol er mwyn sicrhau ymagwedd unffurf. Roedd barn y byddai angen bod yn ofalus o ran cyfrinachedd a pheidio â rhyddhau manylion personol. Mynegwyd anhawster arbennig mewn perthynas â chyhoeddi canlyniad achos Addasrwydd, ynghylch a oedd yr unigolyn yn dod yn aelod o'r proffesiwn addysgu ai peidio. Cynigiwyd enghraifft lle gallai fod yn rhaid i unigolyn ddarparu gwybodaeth gyfrinachol a sensitif i'r Pwyllgor, ac wedyn cael ei bennu'n anaddas i gofrestru yn y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Nodwyd y pwynt.

15.9 Crynhodd aelod arall fod pob gorchymyn a wnaed gan Bwyllgorau Ymddygiad Proffesiynol yn cael ei gyhoeddi'n gyhoeddus, er bod angen pwyso a mesur hawliau unigolyn a'r cyhoedd yn gyfartal. Byddai'r cynnig yn galluogi aelodau'r cyhoedd nad oeddent yn gallu mynychu'r gwrandawiad ar y dydd i gael mynediad at yr un wybodaeth drwy wefan y Cyngor. Aeth y Cadeirydd ymlaen i egluro y byddai'r cynnig a wnaed gerbron yr aelodau'n caniatáu i ymagwedd gyffredin gael ei chymhwyso wrth gyhoeddi pob math o wrandawiad, boed hynny'n ymwneud ag ymddygiad, cymhwysedd, addasrwydd neu sefydlu. Cytunodd yr aelodau i'r cynnig hwn.

15.10 Codwyd ymholiad mewn perthynas ag unrhyw gysylltiad posibl ag aelodau Pwyllgorau Safonau Proffesiynol gan y cyhoedd neu'r cyfryngau yn dilyn achos. Ymatebodd y Cadeirydd gyda disgrifiad byr o rôl darparwr gwasanaethau cysylltiadau cyhoeddus y Cyngor.

15.11 Gofynnodd un aelod am eglurhad terfynol mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyhoeddi enwau aelodau Pwyllgorau Safonau Proffesiynol. Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sicrwydd i'r aelodau nad oedd y rhain yn cael eu darparu ar wefan y Cyngor.

16. Strategaeth Llwyth Gwaith CyngACC (CYNGACC 07/07)

16.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*), gan nodi bod y ddogfen wedi'i thrafod yn y Pwyllgor Polisi ar 8fed Rhagfyr 2006.

16.2 Roedd y Cyngor wedi cytuno'n wreiddiol ar strategaeth 8 pwynt ar gyfer amlygu materion llwyth gwaith athrawon a biwrocratiaeth yn 2002. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref 2006, roedd yr aelodau wedi adolygu'r strategaeth wreiddiol ac roedd y Pwyllgor Polisi canlynol wedi gwneud cynigion ar gyfer ffordd bosibl ymlaen i'r Cyngor fynd i'r afael â materion llwyth gwaith athrawon yng ngoleuni cyflwyno'r 'Cytundeb Llwyth Gwaith' a sefydlu'r Panel Cynghori ar Lwyth Gwaith Ysgolion (SWAP).

16.3 Cyfeiriodd Karen Evans yn arbennig at bum maes y strategaeth wreiddiol y cynigiwyd y dylid eu symud yn eu blaen ynghyd â maes ychwanegol a oedd yn ystyried effaith negyddol bosibl llwyth gwaith gormodol ar allu athrawon i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol.

16.4 Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y cyfarfod blynyddol rhwng SWAP, y Cadeirydd ac ef ei hun wedi'i gynnal yn 2006. Ar yr adeg honno, nododd swyddogion SWAP y byddent yn cytuno i sefydlu ffordd o weithio ar y cyd er mwyn cynorthwyo i gadw materion llwyth gwaith yn fater cyhoeddus.

16.5 Roedd un aelod am fynegi pryder nad oedd yn ymddangos bod dealltwriaeth lawn am y pwysau trwm ar dimau arwain ac awgrymodd y dylid ailgyflwyno'r elfen o gasglu tystiolaeth yn strategaeth y Cyngor. Er mai cyfrifoldeb SWAP oedd hyn, yn hytrach na rhan o gylch gorchwyl y Cyngor, roedd yr aelod o'r farn bod gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru safbwynt gwahanol i'r hyn y byddai SWAP yn ei gyfleu.

16.6 Cytunodd yr aelodau i fabwysiadu'r strategaeth llwyth gwaith ddiwygiedig.

17. Ymgynghoriad y Cynulliad ar Gwricwlwm Cymru 2008 (CYNGACC 08/07)

17.1 Cyflwynodd Karen Evans y papur hwn, gan gynghori'r aelodau'n fras y byddai angen i'r Cyngor ddrafftio ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru. Gwahoddwyd yr aelodau i gytuno ar yr amserlen a awgrymwyd ar gyfer datblygu a chyflwyno ymateb CyngACC.

17.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gynnig eu sylwadau. Byddai swyddogion y Cyngor hefyd yn drafftio ymateb y byddai'r Pwyllgor Polisi yn ei ystyried a'i gytuno yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2007.

17.3 Amlygodd y Prif Weithredwr y gallai fod yn ddymuniad gan yr aelodau groesawu'r hyblygrwydd ehangach a chynnwys llai rhagnodol y cynigion, y pwyslais ar sgiliau a'r syniadau newydd am ddatblygu'r cwricwlwm ar draws sectorau traddodiadol.

17.4 Nododd y Dirprwy Gadeirydd y gallai fod yn ddymuniad gan y Cyngor nodi'r newid yn y proffesiwn i'r ffocws ar sgiliau a chanolfannau dysgu.

17.5 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr amserlen arfaethedig a byddent yn anfon eu sylwadau at staff y Cyngor yn unol â hynny.

18. Rheolau Sefydlog (CYNGACC 09/07)

18.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, esboniodd y Prif Weithredwr fod cynigion i ddiweddaru rheolau sefydlog y Cyngor, a oedd wedi'u diwygio ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2004, wedi'u cymeradwyo mewn archwiliad mewnol diweddar. Roedd y diwygiadau hyn yn adlewyrchu newidiadau a datblygiadau yn y Cyngor yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf a'r angen i adlewyrchu rheoliadau Cyfansoddiad newydd CyngACC ynghyd â'r dymuniad i groesgyfeirio at ddogfennau eraill am fanylion, lle bynnag y byddai hynny'n bosibl.

18.2 Awgrymwyd diwygiadau i'r ddogfen ddrafft gan y Dirprwy Gadeirydd er enghraifft yr angen am gysondeb wrth gyfeirio at aelodau.

18.3 Yn ogystal, nododd aelod fod paragraff 22.3 (gwrandawiadau Safonau Proffesiynol) yn cyfeirio at y posibilrwydd o glywed rhannau yn Gymraeg a rhannau yn Saesneg. Nid oedd yn eglur a oedd hyn yn caniatáu i'r athro/athrawes a'r tyst ddarparu eu tystiolaeth ym mha gyfrwng bynnag a ddymunwyd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r wybodaeth ddiangen yn y ddogfen yn cael ei dileu ac y byddai'r geiriad yn cael ei newid er mwyn ei wneud yn gyson â chyhoeddiadau eraill.

18.4 Roedd yr aelodau'n fodlon ar y cynigion yn amodol ar y newidiadau uchod a chytunwyd i fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 3ydd Mai 2007.

18.5 Yna aeth y Cadeirydd ymlaen i gynghori'r aelodau bod lle gwag ar y Cyngor o blith aelodau etholedig o dan y Rheolau Sefydlog, ac y dylid gofyn i'r person gyda'r nifer uchaf nesaf o bleidleisiau. Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai unigolyn a safodd yn etholiad 2004 yn derbyn gwahoddiad yn y modd priodol ac y byddai'r Cyngor yn derbyn adroddiad maes o law.

19. Ethol aelodau sy'n athrawon i'r Cyngor 2008 (CYNGACC10/07)

19.1 Tynnodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sylw'r aelodau'n fyr at y broses arfaethedig ar gyfer yr etholiad, a'r amserlen a oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa yn 2004, a gwahoddodd yr aelodau i'w cytuno.

19.2 Nododd Hayden Llewellyn fod angen diwygio'r amserlen mewn perthynas â 'derbyn papurau enwebu gan y contractwr' ac y dylai nodi 9fed Tachwedd 2007.

19.3 Roedd yr aelodau'n fodlon a chytunwyd ar yr amserlen a'r broses.

20. Cyflwyno "Y Wlad sy'n Dysgu – Gweledigaeth ar Waith" – menter AADGOS (CYNGACC 11/07)

20.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr a nododd gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflwyno'r blaenoriaethau a nodwyd yn ei dogfen bolisi allweddol '*Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'.*

20.2 Adroddodd y Prif Weithredwr fod ef a'r Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod o'r grŵp rhanddeiliaid ar 15fed Ionawr 2007 lle roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y ffordd y gallai nifer o sefydliadau weithio ar y cyd yn y ffordd fwyaf priodol i wella gallu, lleihau cymhlethdod a chreu ymagwedd fwy arloesol ac uchelgeisiol a fyddai'n codi safonau a pherfformiad. Adroddodd ddymuniad Steve Marshall (*Cyfarwyddwr, yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*) i ddatblygu partneriaethau go iawn rhwng rhanddeiliaid. Roedd hyn yn ymddangos i agor cyfleoedd cadarnhaol am waith newydd i'r Cyngor yn y dyfodol.

20.3 Roedd y Cadeirydd yn cefnogi'r adroddiad y byddai newid mawr o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwahoddodd gwestiynau gan aelodau.

20.4 Nododd yr aelodau'r adroddiad ac roeddent yn fodlon.

21. Unrhyw fater arall.

21.1 Roedd y Cadeirydd am longyfarch y Dirprwy Gadeirydd ar gyhoeddi ei llyfr yn ddiweddar *'The 9 habits of Highly Effective Teachers'.* Roedd yr aelodau'n cytuno.

21.2 Nid oedd unrhyw fater arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 3ydd Mai 2007
yng
Ngwesty'r Metropole, Llandrindod